# NDA Monthly Update

## February 2020

## Summary

- NDA Supply Chain Event – Registration Open
- New billion pound nuclear store takes shape with first concrete pour
- NDA Local Economic and Social Impact Strategy consultation
- New Chief Executive for Sellafield
- New Chief Executive for RWM
- NDA to bring Transport and Logistics capabilities together
- WiN awards for NDA Group employees

## Diary Dates

## NDA Supply Chain Event registration

Registration has opened for the NDA Supply Chain Event. Now in its ninth year, the event is being held on Thursday, 18 June at The International Centre, Telford

Weblink: NDA Supply Chain Event registration

## The first concrete has been poured on a billion pound project at Sellafield

The first concrete has been poured on a billion pound project at Sellafield. The Sellafield Product and Residue Store Retreatment Plant will provide safe storage of special nuclear material for at least 100 years and is a vital part of our hazard and risk reduction mission.

Weblink:  Concrete pour

## NDA Local Economic and Social Impact Strategy

The NDA recently published its draft local economic and social impact strategy 2020-26. We are now interested in your views on the document. The consultation on the draft strategy is open for 6 weeks and closes on Friday13th March.

Weblink:  Draft Social Impact Strategy

## New Chief Executive for Sellafield Ltd

Martin Chown has been appointed as the new Chief Executive of Sellafield Ltd. He will assume his new role and responsibilities on 1 February, leaving his current role as Sellafield Ltd Deputy Chief Executive and Supply Chain Director.

Weblink: Chief Exec Sellafield

## New Chief Executive for RWM

Karen Wheeler CBE has been announced as the new Chief Executive of RWM. Karen will oversee RWM's radioactive waste management services and the delivery of a long-term solution for the UK’s higher activity radioactive waste

Weblink: Chief Exec RWM

## The NDA will bring its transport and logistics expertise together

The UK has long been a global leader in this field particularly through the expertise that currently exists within the NDA’s subsidiaries, International Nuclear Services (INS), Direct Rail Services (DRS), and the INS subsidiary Pacific Nuclear Transport Ltd (PNTL).The NDA will be bringing together responsibility for transport and packaging, along with the operational, commercial, engineering, legal, and regulatory expertise that underpin nuclear transport and logistics, into one division.

Weblink:  Transport & Logistics

## WiN awards for NDA Group employees

The Women in Nuclear (WiN) Annual Awards recognises those who have gone above and beyond to promote gender balance and diversity across the nuclear sector.

NDA’s Technology and Innovation Director, Prof Melanie Brownridge, scooped the award for Champion of the Year – which recognises someone who influences their organisation, and the wider industry, to address gender balance. Dounreay Women’s Network and WiN Scotland Highland Regional Team won the Regional Heroes of the Year award – which recognises groups who work together to make a difference.

Weblink:  WiN awards

# Diweddariad Misol yr NDA

## Chwefror 2020

## Crynodeb

- Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi’r NDA – Cyfnod Cofrestru ar agor
- Storfa niwclear newydd gwerth biliwn o bunnau yn dechrau siapio wrth i gam cyntaf y gwaith tywallt concrit fynd rhagddo
- Ymgynghoriad ar y Strategaeth ar gyfer yr Effaith Gymdeithasol ac Economaidd Leol
- Prif Weithredwr newydd Sellafield
- Prif Weithredwr newydd RWM
- NDA yn dod â gallu o ran Trafnidiaeth a Logisteg at ei gilydd
- Gwobrau WiN i gyflogeion Grŵp yr NDA

## Dyddiadau i'r Dyddiadur

## Cofrestru ar gyfer Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi’r NDA

Mae’r cyfnod cofrestru nawr ar agor ar gyfer Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi’r NDA. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal am y nawfed flwyddyn eleni, ddydd Iau 18 Mehefin yn y Ganolfan Ryngwladol, Telford.

Dolen: Cofrestru ar gyfer Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi’r NDA

## Mae cam cyntaf y gwaith tywallt concrit wedi dechrau fel rhan o’r prosiect gwerth biliwn o bunnau yn Sellafield

Mae cam cyntaf y gwaith tywallt concrit wedi dechrau fel rhan o’r prosiect gwerth biliwn o bunnau yn Sellafield. Bydd yr Orsaf Ail-drin a Storio Cynnyrch a Gweddillion yn Sellafield yn storio deunyddiau niwclear arbennig yn ddiogel am o leiaf 100 mlynedd ac mae’n rhan hollbwysig o’n cenhadaeth i leihau risg a pherygl.

Dolen: Tywallt concrit

## Strategaeth yr NDA ar gyfer yr Effaith Gymdeithasol ac Economaidd Leol

Fe wnaeth yr NDA gyhoeddi drafft o'i strategaeth ar gyfer yr effaith gymdeithasol ac economaidd leol 2020-26. Hoffem glywed eich barn chi ar y ddogfen. Mae'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft ar agor am 6 wythnos a bydd yn dod i ben ddydd Gwener 13 Mawrth.

Dolen: Strategaeth Ddrafft ar gyfer yr Effaith Gymdeithasol

## Prif Weithredwr newydd Sellafield Ltd

Mae Martin Chown wedi cael ei benodi'n Brif Weithredwr newydd Sellafield Ltd. Bydd yn ymgymryd â'i rôl a'i gyfrifoldebau newydd ar 1 Chwefror, gan adael ei rôl bresennol fel Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gadwyn Gyflenwi yn Sellafield Ltd.

Dolen: Prif Weithredwr Sellafield

## Prif Weithredwr newydd RWM

Cyhoeddwyd mai Karen Wheeler CBE yw Prif Weithredwr newydd RWM. Bydd Karen yn goruchwylio gwasanaethau rheoli gwastraff ymbelydrol RWM ac yn darparu ateb tymor hir ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y DU.

Dolen: Prif Weithredwr RWM

## Yr NDA yn dod â'i arbenigedd ym meysydd trafnidiaeth a logisteg at ei gilydd

Mae'r DU wedi bod yn arweinydd byd-eang yn y maes hwn ers cryn amser, yn enwedig yn sgil yr arbenigedd sydd gan is-gyrff yr NDA ar hyn o bryd, yn ogystal â'r Gwasanaethau Niwclear Rhyngwladol (INS), y Gwasanaethau Rheilffyrdd Uniongyrchol (DRS), a Pacific Nuclear Transport Ltd (PNTL), is-gorff yr INS. Bydd yr NDA yn cyfuno cyfrifoldebau dros drafnidiaeth a phecynnu gyda'r arbenigedd gweithredol, masnachol, peirianyddol, cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n sail i logisteg a thrafnidiaeth niwclear, mewn un adran.

Dolen: Trafnidiaeth a Logisteg

## Gwobrau WiN i gyflogeion Grŵp yr NDA

Mae Gwobrau Blynyddol Merched ym Maes Niwclear (WiN) yn cydnabod y rheini sydd wedi mynd yr ail filltir i hybu amrywiaeth a chydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws y sector niwclear.

Cyfarwyddwr Technoleg ac Arloesi'r NDA, yr Athro Melanie Brownridge, enillodd y wobr Pencampwr y Flwyddyn – sef gwobr i gydnabod rhywun sy'n dylanwadu ar ei sefydliad a'r diwydiant ehangach o ran mynd i'r afael a'r cydbwysedd rhwng y rhywiau. Rhwydwaith Menywod

# Diweddariad Misol yr NDA: Chwefror 2020

Dounreay a Thîm Rhanbarthol WiN Ucheldiroedd yr Alban enillodd y wobr Arwyr y Flwyddyn – sef gwobr i cydnabod grwpiau sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud gwahaniaeth.

Dolen:  Gwobrau WiN